# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 29AIN MEDI, 2015**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda - Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

(Dosbarthwyd 21/09/15)

## PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

**AELODAETH (15)**

### Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Annwen Daniels | Gweno Glyn |
| E. Selwyn Griffiths | Sian Gwenllian |
| Annwen Hughes | Charles Wyn Jones |
| Dilwyn Morgan | Michael Sol Owen |

### Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Lesley Day | Thomas G. Ellis |
| Jean Forsyth | Anne Lloyd Jones |

### Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Anwen J. Davies | Jason Humphreys |

### Llafur (1)

Y Cynghorydd Sion W. Jones

### Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 1 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9 Mehefin, 2015 fel rhai cywir (ynghlwm).

**5. YMGYNGHORIAD I'R CYFARWYDDIADAU DRAFFT GAN LYWODRAETH CYMRU I'R ADOLYGIAD GAN Y COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU** 7 - 19

Derbyn adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ynghlwm).

**6. DATBLYGIADAU TECHNOLEGOL** 20 - 25

Derbyn adroddiad yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (ynghlwm).

**7. IS-GRWP AMRYWIAETH** 26 - 29

Derbyn adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (ynghlwm).

**8. LWFANSAU AELODAU** 30 - 31

Derbyn adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ynghlwm).

**9. ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU 2014/15** 32 - 37

Derbyn adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ynghlwm).

**10. RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** 38 - 40

Ystyried rhaglen waith y pwyllgor (ynghlwm).

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 09/06/15

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Tom Ellis (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Annwen Davies, Lesley Day, Jean Forsyth, E. Selwyn Griffiths, Sian Gwenllian, Annwen Hughes, Jason Humphreys, Anne Lloyd Jones, Siôn Wyn Jones, Dilwyn Morgan, a Michael Sol Owen.

**Swyddogion:** Geraint Owen (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

1. **ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd cadarnhau penderfyniad y Cyngor ar 14 Mai 2015 i ethol y Cynghorydd Tom Ellis yn Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2015/16.**

**Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Lesley Day am y gwaith a'i hymroddiad i'r Pwyllgor hwn yn ei swydd fel Cadeirydd am y ddwy flynedd diwethaf.**

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Anne Lloyd Jones yn Is-gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2015/16.**

3. **CROESO**

Estynnwyd croeso i Mr Geraint Owen, a oedd wedi ei benodi i'r swydd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, yn ddiweddar a dymunwyd yn dda iddo yn ei rôl newydd.

4. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

5. **COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2015, fel rhai cywir.

6. **ADRODDIADAU BLYNYDDOL GAN AELODAU**

(a) Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ynglyn â chynhyrchu adroddiadau blynyddol i gynnwys gwybodaeth ffeithiol o weithgareddau, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

(b) Nodwyd bod awgrym yn y papur gwyn ar newid statws adroddiadau blynyddol i fod yn statudol ac y dylid cynnwys ystadegau am bresenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd / hyfforddiant fel gwybodaeth cyhoeddus yn hytrach nag yn rhan o'r adroddiadau yn unig. Cyfeirirwyd at y templed yn Atodiad 1 i'w anfon i Aelodau, yn unol â'r drefn a weithredwyd y llynedd, gyda pheth o'r wybodaeth wedi ei baratoi yn barod iddynt gyflwyno eu hadroddiadau erbyn diwedd mis Mehefin. Gofynnwyd am sylwadau / barn y Pwyllgor a y cynigon.

(c) Amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol

(i) Nad oedd rhai aelodau yn gweld creu adroddiad blynyddol yn fuddiol a phe byddir yn derbyn cefnogaeth gan y Cyngor y byddai cynhyrchu cylchlythyr i gynnwys gwaith a wna Aelodau etholedig yn eu wardiau yn llawer mwy effeithiol
(ii) Siomedig mai dim ond 26 Aelod a gynhyrchodd adroddiad blynyddol y llynedd ac y dylid annog mwy o Aelodau i'w cynhyrchu drwy drafodaethau gyda'r Grwpiau Gwleidyddol
(iii) Falch bod cynnydd yn y niferoedd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (8) a'i fod yn arf defnyddiol iawn i Aelodau a bod tystiolaeth bod llawer iawn o unigolion yn darllen yr adroddiadau blynyddol.
(iv) Bod aelodau yn cael llai o gyfle nac eraill i wasanaethu y sir fel y dymunent gan nad oeddent wedi eu dewis i eistedd ar gyrff allanol
(v) Awgrymwyd, lle cyfeirir at absenoldeb mynychu pwyllgorau, y byddai'n ddefnyddiol i greu blwch ychwanegol er mwyn i Aelodau fedru rhoi rhesymau pam nad ydynt wedi mynychu gan rhan amlaf eu bod yn mynychu cyfarfodydd eraill ar ran y Cyngor ee yn eu rôl fel Pencampwyr

(ch) Croesawyd y sylwadau uchod a phwysleisiwyd bod yr adroddiadau blynyddol yn cael ei weld fel gofyniad lleiaf a bod unrhyw beth mae Aelodau yn gynhyrchu uwchben hyn i'w groesawu ond yn anffodus ni ellir cytuno nac ymrwymo i'r Cyngor i gefnogi unrhyw beth pellach yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo fformat y templed yn ddarostyngedig i ychwanegu blwch ychwanegol ar gyfer nodi rhesymau am absenoldeb o bwyllgorau.**

**7. LWFANSAU A PHRESENOLDEB AELODAU**

(a) Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn diweddaru Aelodau ar y gofynion cyhoeddi ac adrodd ar lwfansau a phresenoldeb.

(b) Nodwyd ei fod yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi gwybodaeth am y cyflogau y bwriedir eu talu i Aelodau ar gyfer 2015/16 ynghyd â gwybodaeth am y cyflogau a'u treuliau a dalwyd iddynt yn ystod 2014/15. Bwriedir ar gyfer eleni cyhoeddi'r wybodaeth ar wefan y Cyngor ynghyd ag yn Newyddion Gwynedd.

(c) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(i) O safbwynt lwfans gofal, y dylid cynnwys eglurder ar hawliau aelodau i lwfans gofal boed hyn yn ofal plant neu ddibynnydd gan bod aelodau wedi derbyn beirniadaeth o'i dderbyn yn y gorffennol
(ii) Dylid nodi os nad yw Cadeirydd / Is-gadeirydd Pwyllgor yn derbyn lwfans am y swydd er mwyn rhoi darlun cyflawn i'r cyhoedd
(iii) Bod ambell i Aelod gyda swyddogaeth fel Pencampwr ar feysydd arbennig a olygai llawer iawn o deithio ychwanegol ac felly er mwyn creu darlun cyflawn y dylid bod eglurhad yn cyfleu eu bod yn teithio milltiroedd ar gyfer y gwaith ychwanegol o'i gymharu ag aelodau eraill
(iv) Bod amryw o Aelodau yn gwasanaethu ar ran y Cyngor ar gyrff allanol eraill megis y Parc Cenedlaethol, Gwasanaeth Tân, Cartrefi Cymunedol Gwynedd, a'u bod yn mynychu llawer o gyfarfodydd ac sy'n golygu llawer o oriau teithio
(v) Bod y dyddiadur enghreifftiol o waith Aelod a gyhoeddwyd y llynedd yn hynod ddiddorol ac o fudd i'r cyhoedd lle nodir dyletswyddau a faint o bwyllgorau a fynychwyd

(vi) O safbwynt presenoldeb Aelodau mewn cyfarfodydd, mynegwyd anfodlonrwydd nad oedd rhai Aelodau yn mynychu yn rheolaidd a bod hyn yn sarhad ar y Cyngor a'u hetholwyr ac nad oeddynt yn cyflawni eu dyletswyddau i'r eithaf

(vii) Yn dilyn o'r uchod, mynegwyd nad oedd rhai Aelodau yn teimlo gwerth mewn mynychu pwyllgorau oherwydd nad oeddynt yn gallu gwneud penderfyniadau

(viii) Nad oedd canrannau yn adlewyrchiad teg ar bresenoldeb i rhai hynny sydd yn gwasanaethau ar lai o bwyllgorau mewn nifer

(ix) Yng nghyd-destun mynychu cyrsiau / hyfforddiant, y byddai'n ddefnyddiol cael cynnig y ddarpariaeth yn ystod fin nosau neu ar lein er mwyn hwyluso y rhai sy'n gweithio oriau 9 a.m. – 5 p.m.

(x) Awgrymwyd efallai y byddai o fudd cynhyrchu taflen oriau er mwyn i Aelodau ei gwblhau a fyddai'n cyfiawnhau yr oriau a dreulir mewn cyfarfodydd / gwaith lleol, a.y.b.

(ch) Ymatebodd y swyddogion i'r sylwadau uchod fel a ganlyn:

(a) gellir cyflwyno esboniad yn wahanol i flwyddyn diwethaf ynglyn â chyfrifoldebau ychwanegol Aelodau sy'n gorfod teithio llawer iawn fwy o filltiroedd o'i gymharu ag Aelodau eraill

(b) o safbwynt y dyddiadur dychmygol, awgrymwyd posibilrwydd i gyflwyno erthygl yn Newyddion Gwynedd yn seiliedig ar gwestiynau ac atebion i gyfarch materion megis lwfansau teithio, lwfansau gofal a phresenoldeb mewn cyfarfodydd.

(c) Yn amlwg bod Aelodau yn awyddus i newid rheoliadau ynglyn â phresenoldeb mewn cyfarfodydd ac awgrymwyd ymhellach y gellir cyhoeddi canrannau presenoldeb pob chwarter yn Rhaeadr

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**(b) Gofyn i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd**

**(i) gyflwyno gwybodaeth i Newyddion Gwynedd:**

- **yn seiliedig ar gwestiwn ac ateb i gyfarch eglurder ar ddyletswyddau Aelodau fel amlinellir yn (a) a (b) uchod.**
- **Yn cyfarch os yw Aelod wedi cynhyrchu Adroddiad Blynyddol ar ffurf ✓ / x**

**(ii) Gyhoeddi canrannau presenoldeb Aelodau mewn pwyllgorau yn Rhaeadr**

**(iii) Nodi'r posibilrwydd o bennu isafswm lefel presenoldeb ac anfon e-bost at Aelodau sydd yn disgyn o dan y lefel penodedig er ystyriaeth bellach**

## 8. DATBLYGIADAU TECHNOLEGOL

### (A) Darpariaeth Llechen

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn diweddaru'r Aelodau ar faterion technoleg gwybodaeth.

Nodwyd bod sesiwn peilot gydag 8 aelod wedi ei drefnu ar gyfer 26 Mehefin 2015 i'w uwchsgilio ar ddefnydd i-Pads. Yn ddibynnol ar adborth y sesiwn byddir yn bwrw ymlaen i barhau gyda grwpiau bychain.

(a) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau unigol:

(i) Nad oedd meddalwedd yr i-pad (Apple) a'r sustem gyfrifiadurol gorfforaethol (Microsoft) yn gytûn hefo'i gilydd

(ii) bod hyfforddiant pellach yn wastraff amser ac y byddai derbyn mwy o feddalwedd arnynt yn fwy buddiol
(iii) siomedig bod yr hyfforddiant yn y Gymraeg yn unig a bod rhai Aelodau yn ei chael yn anodd dilyn ac nad oedd pob un Aelod mor ddeallus ar ddarpariaeth gyfrifiadurol
(iv) bod gormod o ddefnydd o'r i-pad yn creu trafferth i'r llygaid
(v) trafferthion i agor rhai atodiadau

Ymatebodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth i'r sylwadau uchod fel a ganlyn:

(a) Bod nifer o aelodau yn ymwybodol o anghenion sylfaenol yr i-pads ond yn awyddus i'w defnyddio yn fwy hyderus. Nodwyd ymhellach nad oedd unrhyw benderfyniad wedi ei gymryd ynglŷn â meddalwedd ychwanegol arnynt
(b) Nad oedd yr Uned Technoleg Gwybodaeth yn gallu cefnogi gwahanol fathau o feddalwedd ond yn hytrach y rhai safonol ar yr i-pads
(c) Bod defnydd y llechen fwy ar gyfer darllen ac ymateb i e-byst, ac os oes angen ymgymryd â gwaith gyda thaenlenni, llythyrau, a.y.b. bod yn rhaid gwneud hyn ar gyfrifiadur personol
(ch) y byddai hyfforddiant yn ddefnyddiol ar gyfer unioni pa mor llachar yw'r sgrin, maint y ffont, gwirio sefyllfaoedd anffodus o newid geirfa
(d) Awgrymwyd i Aelodau a oedd yn profi anhawster i agor atodiadau iddynt anfon y wybodaeth ymlaen i'r Uned Technoleg Gwybodaeth er mwyn ymchwilio ymhellach i'r broblem

**Penderfynwyd: Cymeradwyo i symud ymlaen hefo'r rhaglen hyfforddiant peilot ac i adrodd yn ôl ar yr adborth i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.**

**(B) Modern Gov**

Adroddwyd, er gwybodaeth, gan yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni o safbwynt y system gweinyddu pwyllgorau electronaidd uchod ei fod yn cynnig mwy o hyblygrwydd ac yn ddull o gyhoeddi deunydd ar wefan newydd y Cyngor. Bydd y system yn galluogi:

- gweinyddu pwyllgorau yn fwy effeithiol
- gosod rhaglenni yn fwy hwylus ar lechi aelodau
- yn asio yn dda gyda gwe-ddarlledu
- modd hwylus o gasglu gwybodaeth am bresenoldeb, a.y.b.

Hyderir y bydd y system yn cael ei gosod ym mis Gorffennaf gyda hyfforddiant i Aelodau ar 25 Tachwedd 2015. Fe fyddir yn rhannu gwybodaeth bellach yn Rhaeadr pan fydd y system wedi ei osod.

Addawodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth ymchwilio ymhellach i wendid y peiriannau chwilio ar y wefan newydd yn unol â chais Aelod.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r wybodaeth uchod.**

**(C) Gwefannau Cynghorau Tref a Chymuned**

Atgoffwyd yr Aelodau o'r ddarpariaeth grant o £500 a oedd ar gael yn 2013/14 i Gynghorau Tref a Chymuned i sefydlu gwefan a bu i 48 ohonynt drwy Wynedd gymryd mantais o'r grant. Bu i'r Uned Technoleg Gwybodaeth wahodd datganiadau o ddiddordeb gan gwmnïau addas ar gyfer dylunio a sefydlu gwefan ar y cyd i'r Cynghorau Tref a Chymuned ond yn anffodus nid oedd y tri dyfynbris ddaeth i law o fewn £500. Nodwyd bod y grant bellach wedi dirwyn i ben.

Mewn ymateb i ymholiadau gan Aelodau, nododd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth fel a ganlyn:

(i) Byddai'n ymchwilio ymhellach i ganllawiau'r grant ar gyfer y Cynghorau Tref / Cymuned sydd heb gwblhau i sefydlu gwefan erbyn diwedd mis Mawrth 2015
(ii) O safbwynt yr union wybodaeth i'w ddarparu ar y wefan, dylid cyfeirio at Unllais Cymru am arweiniad
(iii) Nid oedd modd i'r Uned Technoleg Gwybodaeth y Cyngor i greu gwefan i'r Cynghorau Tref / Cymuned oherwydd prinder adnoddau ond gellir rhannu'r wybodaeth gyda hwy o'r cwmnïau ar y farchnad

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi'r uchod**

**(b) Gofyn i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd / Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth wirio canllawiau'r grant ynglŷn â datgan buddiannau ar y wefan, ac anfon arweiniad ymlaen i Aelodau'r Pwyllgor.**

**9. CYFWELIADAU DATBLYGU PERSONOL**

(a) Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn diweddaru Aelodau ar drefniadau'r Cyngor ynglŷn â chyfweliadau datblygu personol.

(b) Nodwyd y cynigwyd cyfle i Aelodau gael trafodaeth ynglŷn â'u hanghenion er mwyn eu bwydo i'r rhaglen hyfforddiant. Bu 26 o Aelodau yn rhan o'r drefn ac fe ofynnwyd eu barn ar sut maent wedi elwa o fod yn rhan o'r broses. Derbyniwyd ymateb gan nifer isel gyda'r ymatebion yn amrywiol - rhai wedi gweld budd enfawr yn y broses a rhai eraill ddim. Bwriedir cynnal cyfres o gyfarfodydd ym mis Medi i Ragfyr ac fe ymhelaethwyd ar y camau nesaf o fewn yr adroddiad.

(c) Gofynnwyd i Aelodau eu barn ynglŷn â pharhau gyda'r cylch o gyfweliadau a / neu roi cyfle i'r rhai na gyfwelwyd yn flaenorol i gael cyfle yn ystod mis Medi i Ragfyr.

(ch) Mewn ymateb, nododd Aelod bod hyfforddiant yn hynod bwysig ac ni ellir cael gormod ohono. Awgrymwyd ymhellach y byddai gweithredu rhaglen dreigl o gyfweliadau pob dwy flynedd yn fuddiol.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**(b) Cymeradwyo i gynnig cyfweliadau i'r Aelodau hynny na gafodd y cyfle i gael cyfweliad yn y cylch diwethaf yn ystod tymor yr Hydref a gweithredu rhaglen dreigl o gyfweliadau wedi hynny bob dwy flynedd.**

**10. RHAGLEN WAITH**

(a) Cyflwynwyd rhaglen waith ddrafft ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor er mwyn blaen-raglennu gwaith y flwyddyn.

(b) Gofynnwyd am farn y Pwyllgor ar fframwaith y rhaglen ddrafft gan dynnu sylw penodol at yr eitemau a restrwyd.

(c) Croesawyd y rhaglen waith ddrafft yn enwedig y cyfle i gynnal deialog gyda Chadeirydd y Pwyllgor Safonau er mwyn deall cylch gorchwyl y pwyllgor hwnnw a'r berthynas rhwng y ddau bwyllgor.

(ch) Cymerodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y cyfle i gyfarch y Pwyllgor drwy nodi bod y Timau Gwasanaethau Democrataidd, Cefnogi Aelodau, Cabinet, Grwpiau Gwleidyddol a Chyfieithwyr yn sicrhau cefnogaeth i'r broses ddemocrataidd ac yn brofiadol yn y maes. Cydnabuwyd bod angen ystyried fwy o hyfforddiant ar lein a bod llawer o waith yn digwydd drwy'r maes E-ddysgu. Tra'n derbyn bod gan aelodau wahanol arbenigedd, pwysleisiodd yr angen i gydweithio er mwyn galluogi Aelodau i graffu'n effeithiol mewn pwyllgorau.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a chymeradwyo'r rhaglen waith ddrafft fel fframwaith sylfaenol ynghyd ag unrhyw faterion a godir sydd angen sylw.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 am a daeth i ben am 12.35 pm

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **29ain o Fedi 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Ymgynghoriad i'r cyfarwyddiadau drafft gan Lywodraeth Cymru i'r adolygiad gan y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.** |
| **PWRPAS** | **Derbyn sylwadau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i ymateb i'r ymgynghoriad.** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Cyflwyno sylwadau ac annog cyd-aelodau nad ydynt ar y Pwyllgor i ymateb i'r ymgynghoriad.** |
| **AWDUR** | **Geraint Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Fel rhan o'r rhaglen diwygio llywodraeth leol, bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynnal adolygiadau o drefniadau etholiadol ar gyfer ardaloedd awdurdod lleol newydd arfaethedig.

1.2 Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar fanylion y Cyfarwyddiadau Drafft (atodiad A), gan gynnwys maint cynghorau neu sawl aelod, a'r gymhareb o etholwyr i bob aelod etholedig.

1.3 Noder nad yw'r ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar y map o'r ardaloedd awdurdod lleol newydd arfaethedig a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar 17 Mehefin, 2015, ond mae'n sail i'r cyfarwyddiadau drafft i'r Comisiwn.

1.4 Mae'r ymgynghoriad eisoes wedi ei rannu gyda'r holl Aelodau trwy Rhaeadr, gan gynnig iddynt gyflwyno sylwadau unigol yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru neu gyflwyno sylwadau er ystyriaeth i'w cynnwys yn ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad trwy ebostio gwasanethdemocrataidd@gwynedd.gov.

1.5 Yn ogystal, penderfynwyd ymgynghori fel a ganlyn:

- Grwp Busnes (17 Medi),
- Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (29 Medi)

gan gyflwyno sylwadau'r Pwyllgor i'r Cyngor llawn ar gyfer trafodaeth ar Hydref 8fed 2015.

1.6 Mae angen ymateb i'r ymgynghoraid erbyn 9fed o Dachwedd, 2015.

1.7 Yn dilyn hynny, llunir ail ddrafft o'r cyfarwyddiadau ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol byr, ac unwaith y bydd y cyfarwyddiadau ffurfiol wedi eu cyhoeddi bydd y Comisiwn yn cychwyn ar lunio'r trefniadau etholiadol mwyaf priodol ar gyfer Cymru.

1.8 Dyddiad olaf ar gyfer llunio'r adroddiad terfynol gan y Comisiwn yw 31 Gorffennaf 2018.

## 2. YR YMGYNGHORIAD

2.1 Mae'n bwysig nodi mai ymgynghoriad ar gyfer trefniadau yn dilyn ad-drefnu Llywodraeth Leol sydd yma. Mae'n debygol na fydd y trefniadau yn weithredol tan oddeutu 2019. (Bydd yr etholiadau sydd i'w cynnal ym mis Mai 2017 ar gyfer

Gwynedd yn golygu addasu o 75 aelod etholedig i 66 aelod).

2.2 Cyn ymateb i'r cwestiynnau penodol sydd wedi eu gofyn, mae'n bwysig nodi fod y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cyhoddi y bydd y cap o 75 o Aelodau etholedig fesul awdurdod lleol yn dilyn yr ad-drefnu, yn cael ei ddiddymu. Nid oes uchafswm nac isafswm o ran nifer Aelodau etholedig yn cael ei bennu.

2.3 Mae tri prif ran i'r ymgynghoriad.

a) *"pennir y dylai nifer y cynghorwyr i awdurdod lleol ddim fod yn llai na'r nifer oa geir drwy gymhareb cynghorwyr i ehtolwyr o un cynghorydd i bob 4,000 o etholwyr."*

**Gweler y tabl isod ar gyfer y ddwy opsiwn ad-drefnu ar gyfer y Gogledd, ynghŷd â'r lleiafswm arfaethedig o Aelodau etholedig.** (Gweler cwestiynnau 1 – 5)

| Awdurdodau'n ymuno | Nifer etholwyr (2015 ffigurau etholwyr llywodraeth leol) | Cyfanswm etholwyr i'r awdurdod newydd arfaethedig | Isafswm nifer Aelodau ar gyfer yr awdurdod newydd arfaethedig (seiliedig ar ratio 1:4,000) | Nifer Cyfredol o Aelodau Etholedig |
|---|---|---|---|---|
| OPSIWN 1 | | | | |
| Gwynedd | 81,672 | | | |
| Mộn | 50,352 | 132,024 | **33** | 105 |
| OPSIWN 2 | | | | |
| Gwynedd | 81,672 | | | |
| Mon | 50,352 | | | |
| Conwy | 93,051 | 225,075 | **56** | 164 |

b) *"..rhaid i'r Comisiwn ystyried nodweddion penodol ward… Gall nodweddion penodol gynnwys dwysedd poblogaeth mewn ardal, cymysgedd o gymunedau Cymraeg a Saesneg a daearyddiaeth ardal neu faterion fel tlodi"*

c) *"Disgwylir i enwau Cymraeg cyffredin sy'n dderbyniol yn lleol, gael eu defnyddio (i enwi ward). Pan nad oes enw Cymraeg cyffredin am ward, rhaid i'r Comisiwn hefyd gynnig enw Saesneg cyfatebol.*

**Materion penodol o ran sefyllfa wledig Gwynedd a'r iaith Gymraeg i'w hystyried uchod.** (Gweler cwestiynnau 6-7)

## 3. CWESTIYNNAU'R YMGYNGHORIAD

Cwestiwn 1: Ydych chi'n credu bod y gymhareb a awgrymir yn darparu ar gyfer cael llywodraeth leol effeithiol a hwylus?

Cwestiwn 2: Ydych chi'n credu bod angen isafswm o ran nifer cynghorwyr i sicrhau bod awdurdod lleol yn gweithredu mewn modd effeithiol a democrataidd? Os felly, beth yw'r isafswm a pham?

Cwestiwn 3: Ydych chi'n credu y dylai isafswm nifer yr aelodau etholedig fesul awdurdod lleol gael ei bennu yn y Cyfarwyddiadau Drafft?

Cwestiwn 4: Ydych chi'n credu y dylid cael cap ar nifer yr aelodau etholedig fesul awdurdod lleol? Os felly, beth ddylai'r uchafswm fod yn eich barn chi a pham?

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno y dylai pob ward o fewn awdurdod lleol gael tua'r un nifer o etholwyr fesul aelod etholedig?

Cwestiwn 6: Pa effaith ddylai nodweddion penodol ardal ei chael ar nifer y cynghorwyr sydd eu hangen i gynrychioli'r boblogaeth?

Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno nad oes angen enw Saesneg cyfatebol ar wardiau sydd ag enwau Cymraeg cyffredin? Os nad ydych yn cytuno, ydych chi'n credu y dylai pob ward gael enw Saesneg a Chymraeg?

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gyflwyno eu sylwadau yn y cyfarfod er mwyn eu pasio ymlaen i'r Cabinet, ac annog eu cyd-aelodau i ymateb i'r ymgynghoriad.

Rhif: **WG26125**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

# Cyfarwyddiadau Drafft i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Dyddiad cyhoeddi: **17 Awst 2015**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **9 Tachwedd 2015**



OGL © Hawlfraint y Goron 2015

## Trosolwg

Rydym am glywed eich barn ar y Cyfarwyddiadau Drafft i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

Fel rhan o'r rhaglen diwygio llywodraeth leol, bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynnal adolygiadau o drefniadau etholiadol ar gyfer ardaloedd awdurdod lleol newydd arfaethedig.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar fanylion y Cyfarwyddiadau Drafft, gan gynnwys maint cynghorau neu sawl aelod, a'r gymhareb o etholwyr i bob aelod etholedig.

## Sut i ymateb

A fyddech cystal ag ymateb drwy ddefnyddio'r ffurflen ar ddiwedd y ddogfen a naill ai anfon copi caled i'r cyfeiriad isod, neu ei hanfon drwy e-bost i: RLGProgramme@wales.gsi.gov.uk.

Os ydych yn anfon eich ymateb drwy e-bost, nodwch y canlynol ym mhwnc eich e-bost: Cyfarwyddiadau i Ymgynghoriad Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Mae fersiynau o'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, mewn Braille ac mewn ieithoedd eraill.**

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Rhaglen Diwygio Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: RLGProgramme@wales.gsi.gov.uk

ffôn: 029 2082 6202

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r sylwadau a'r wybodaeth a roddwch inni

Caiff unrhyw ymateb a anfonwch atom ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n delio â materion perthnasol i'r ymgynghoriad hwn. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth sydd ym meddiant llawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

**Cyflwyniad**

Diben yr ymgynghoriad hwn yw gofyn am farn ar y Cyfarwyddiadau Drafft i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (“y Comisiwn”).

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystyried Bil Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 ar hyn o bryd. Mae darpariaethau'r Bil yn caniatáu ar gyfer gwaith paratoadol i alluogi rhaglen o uno a diwygio llywodraethau lleol. Mae hyn yn cynnwys rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i’r Comisiwn i gynnal adolygiadau cychwynnol o'r trefniadau etholiadol ar gyfer yr ardaloedd awdurdod lleol newydd arfaethedig.

Cafodd y map o’r ardaloedd awdurdod lleol newydd arfaethedig, gan gynnwys y ddau opsiwn ar gyfer y Gogledd, ei gyhoeddi gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar 17 Mehefin, a dyma sail Cyfarwyddiadau Drafft y Comisiwn. Nid ydym, yn yr ymgynghoriad hwn, yn gofyn am farn am y map. Bydd y cyfle hynny’n codi yn ystod yr ymgynghoriad ar Fil Llywodraeth Lleol Drafft a gynlluniwyd ar gyfer yr hydref.

**Cyfarwyddiadau i'r Comisiwn**

Yn dilyn cyfnod yr ymgynghoriad ac y deddfiad y Bil, bydd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyhoeddi drafft arall o’r Cyfarwyddiadau am ymgynghoriad ffurfiol byr. Unwaith y bydd cyfarwyddiadau terfynol yn cael eu cyhoeddi, bydd y Comisiwn yn gallu cychwyn ar y gwaith i lunio’r trefniadau etholiadol mwyaf priodol ar gyfer yr awdurdodau lleol newydd arfaethedig yng Nghymru.

Fel yr amlinellwyd yn adran 18 y Bil, mae'n rhaid i'r Comisiwn “geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a hwylus” yng Nghymru. Rhaid iddo gynnig wardiau sy'n gydlynol ac yn sicrhau cydbwysedd rhwng adeiladu corff effeithiol a medrus o aelodau etholedig a chynnal cysylltiad agos rhwng cymunedau lleol a'r rheini sy'n eu cynrychioli.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod natur arbenigol gwaith y Comisiwn a'i arbenigedd wrth gynnal adolygiadau etholiadol. Bydd angen i'r Comisiwn ddefnyddio ei farn ei hun wrth ystyried nodweddion penodol ardal a'r effaith y gall y rhain ei chael ar aelod etholedig pob ward. Nid oes bwriad chwaith i ddweud wrth y Comisiwn ym mha drefn y dylai gynnal ei adolygiadau, ond y dyddiad cau ar gyfer llunio'r adroddiad olaf fydd 31 Gorffennaf 2018.

**Powys**

Ni chaiff Powys ei gynnwys yn y rhaglen o adolygiadau etholiadol oherwydd nad yw cynigion Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd yn uno ag awdurdod lleol arall - cynigir y bydd yn awdurdod sy’n parhau.

Cafodd trefniadau etholiadol Powys eu hadolygu'n fwyaf diweddar yn 2011; fodd bynnag, nid yw'r argymhellion o'r adolygiad hwnnw wedi cael eu

gweithredu eto. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu'r trefniadau a argymhellwyd erbyn yr etholiadau lleol yn 2017.

Mae'r Cyfarwyddiadau Drafft hyn yn caniatáu i'r Comisiwn argymell llai o aelodau etholedig ar gyfer ardal awdurdod lleol newydd nag a fydd ym Mhowys yn 2017 yn dilyn yr argymhellion o adolygiad y Comisiwn yn 2011. Yn dilyn y rhaglen diwygio llywodraeth leol, bydd y Comisiwn yn ail-gychwyn ar y drefn o gynnal adolygiadau etholiadol bob 10 mlynedd ar gyfer awdurdodau lleol, a bydd yn dechrau'r rownd newydd hon ym Mhowys.

**Cyfarwyddiadau**

Byddem yn croesawu safbwyntiau gan ystod eang o'n rhanddeiliaid ar y Cyfarwyddiadau Drafft ac, yn arbennig, ar y materion canlynol.

Nodwch: Mae'r Cyfarwyddiadau Cyffredinol yn cynnwys darpariaethau y mae'n rhaid i'r Comisiwn roi sylw. Nid ydynt yn cael eu dehongli fel reolau a dylid ei ddarllen ar y cyd ag Adrannau 16 i 18 o Fil Llywodraeth Leol (Cymru) 2015.

**Nifer yr aelodau etholedig fesul ardal awdurdod lleol**

Wrth ystyried y cynnydd ym maint awdurdodau lleol pan fyddant yn uno, mae'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cyhoeddi y bydd y cap o 75 o aelodau etholedig fesul awdurdod lleol yn cael ei ddiddymu. Nid yw'r Cyfarwyddiadau'n pennu uchafswm nac isafswm o ran nifer yr aelodau etholedig, ond pennir y dylai nifer y cynghorwyr i awdurdod lleol ddim fod yn llai na'r nifer a geir drwy gymhareb cynghorwyr i etholwyr o un cynghorydd i bob 4,000 o etholwyr.

- **Cwestiwn 1: Ydych chi'n credu bod y gymhareb a awgrymir yn darparu ar gyfer cael llywodraeth leol effeithiol a hwylus?**

- **Cwestiwn 2: Ydych chi'n credu bod angen isafswm o ran nifer cynghorwyr i sicrhau bod awdurdod lleol yn gweithredu mewn modd effeithiol a democrataidd? Os felly, beth yw'r isafswm a pham?**

- **Cwestiwn 3: Ydych chi'n credu y dylai isafswm nifer yr aelodau etholedig fesul awdurdod lleol gael ei bennu yn y Cyfarwyddiadau Drafft?**

- **Cwestiwn 4: Ydych chi'n credu y dylid cael cap ar nifer yr aelodau etholedig fesul awdurdod lleol? Os felly, beth ddylai'r uchafswm fod yn eich barn chi a pham?**

- **Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno y dylai pob ward o fewn awdurdod lleol gael tua'r un nifer o etholwyr fesul aelod etholedig?**

**Nodweddion penodol ward**

Mae'r Cyfarwyddiadau Drafft yn nodi bod yn rhaid i'r Comisiwn ystyried nodweddion penodol ardal awdurdod lleol arfaethedig wrth adolygu trefniadau'r wardiau. Gall nodweddion penodol gynnwys dwysedd poblogaeth mewn ardal, cymysgedd o gymunedau Cymraeg a Saesneg a daearyddiaeth ardal neu faterion fel tlodi.

- **Cwestiwn 6: Pa effaith ddylai nodweddion penodol ardal ei chael ar nifer y cynghorwyr sydd eu hangen i gynrychioli'r boblogaeth?**

**Enwi wardiau**

Mae gan y Comisiwn y dasg o gynnig enwau ar gyfer pob ward. Disgwylir i enwau Cymraeg cyffredin sy'n dderbyniol yn lleol, gael eu defnyddio. Pan nad oes enw Cymraeg cyffredin am ward, rhaid i'r Comisiwn hefyd gynnig enw Saesneg cyfatebol.

- **Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno nad oes angen enw Saesneg cyfatebol ar wardiau sydd ag enwau Cymraeg cyffredin? Os nad ydych yn cytuno, ydych chi'n credu y dylai pob ward gael enw Saesneg a Chymraeg?**

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

| | |
|---|---|
| Enw: | |
| E-bost: | |
| Rhif Ffôn: | |
| Cyfeiriad: | |
| Cod Post: | |
| Sefydliad (os yn berthnasol) | |

**Dychwelyd y ffurflen hon**

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion yw **9 Tachwedd 2015**

A fyddech cystal ag anfon y ffurflen drwy e-bost i:

**RLGProgramme@wales.gsi.gov.uk**

Neu drwy'r post i:

Rhaglen Diwygio Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Os ydych yn anfon eich ymateb drwy e-bost, rhowch y canlynol ym mhwnc eich e-bost: **Cyfarwyddiadau i Ymgynghoriad Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru**

**Cwestiwn 1. Ydych chi'n credu bod y gymhareb a awgrymir yn darparu ar gyfer cael llywodraeth leol effeithiol a hwylus?**

| | |
|---|---|
| **Ydw** | |
| **Nac ydw** | |

**Os nad ydych, eglurwch pam:**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 2. Ydych chi'n credu bod angen isafswm o ran nifer cynghorwyr i sicrhau bod awdurdod lleol yn gweithredu mewn modd effeithiol a democrataidd?**

| | |
|---|---|
| **Ydw** | |
| **Nac ydw** | |

**Os ydych, beth yw'r isafswm hwnnw a pham?**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 3. Ydych chi'n credu y dylai isafswm nifer yr aelodau etholedig fesul awdurdod lleol gael ei bennu yn y Cyfarwyddiadau Drafft?**

| | |
|---|---|
| **Ydw** | |
| **Nac ydw** | |

**Rhowch resymau am eich barn:**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 4. Ydych chi'n credu y dylid cael cap ar nifer yr aelodau etholedig fesul awdurdod lleol?**

| | |
|---|---|
| **Ydw** | |
| **Nac ydw** | |

**Os ydych, beth ddylai'r uchafswm fod yn eich barn chi a pham?**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 5. Ydych ch'n cytuno y dylai pob ward o fewn awdurdod lleol gael tua'r un nifer o etholwyr fesul aelod etholedig?**

| | |
|---|---|
| **Ydw** | |
| **Nac ydw** | |

**Rhowch resymau am eich barn:**

**Cwestiwn 6. Pa effaith dylai nodweddion penodol ardal ei chael ar nifer y cynghorwyr sydd eu hangen i gynrychioli'r boblogaeth?**

**Cwestiwn 7.  Ydych chi'n cytuno nad oes angen enw Saesneg cyfatebol ar wardiau sydd ag enwau Cymraeg cyffredin?**

| | |
|---|---|
| **Ydw** | |
| **Nac ydw** | |

**Os nad ydych yn cytuno, ydych chi'n credu y dylai pob ward gael enw Saesneg a Chymraeg?**

| | |
|---|---|
| **Ydw** | |
| **Nac ydw** | |

---

Mae’n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai’n well gennych i’ch ymateb gael ei gadw’n gyfrinachol, ticiwch y blwch: ☐

| CYFARFOD | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
|---|---|
| DYDDIAD | 29 Medi, 2015 |
| PWNC | Datblygiadau Technolegol |
| PWRPAS | Diweddaru Aelodau ar faterion Technoleg Gwybodaeth |
| AWDUR | Arwel Ellis Jones<br>Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynnu Corfforaethol<br>Vera Jones<br>Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |

**<u>Darpariaeth Technoleg Gwybodaeth</u>**

**1. Cefndir**

1.1 Bydd y Pwyllgor yn cofio iddo drafod y newidiadau i systemau electroneg y Cyngor yn ei gyfarfod diwethaf. Nodwyd bryd hynny y byddai’r newidiadau yn dod i rym ddiwedd Awst 2015. Newidiadau er diogelwch defnyddwyr ydynt, sy’n hanfodol a gorfodol i’w gweithredu.

1.2 Cadarnhawyd na fyddai’r newid yn effeithio dim ar ddefnydd yr aelodau o’r ipad. Mae’r holl ohebiaeth gan y Cyngor yn parhau i gyrraedd aelodau etholedig yn electroneg trwy eu cyfeiriad swyddogol “CynghoryddXXXXX@gwynedd.gov.uk” ar eu llechen fel yn y gorffennol.

1.3 Fodd bynnag, mae’n golygu mai trwy’r llechen yn unig y mae aelodau yn gallu cael mynediad i’w cyfrif e-bost.

1.4 Trafodwyd goblygiadau’r addasiad gan y Pwyllgor, a’r penderfyniad oedd ceisio sicrhau bod y defnydd llawnaf posib yn cael ei wneud o’r i-Pad. Gweler isod am fwy o fanylion am y peilot o’r hyfforddiant pellach a gynhaliwyd.

1.5 Yn ogystal, penderfynodd y Pwyllgor ei bod yn ofynol cadw llygad ar y mater i geisio asesu os yw’r addasiad yn creu problem i Aelodau gan drafod hynny yn y Pwyllgor os oedd angen.

**2. Datblygiadau**

2.1 Ers i’r addasiad ddigwydd mae 11 aelod wedi cysylltu gyda’r Gwasanaeth Democrataidd i holi ymhellach a gwneud sylw ar y sefyllfa. Yn ogystal, mae aelodau’r Cabinet wedi cysylltu ac, oherwydd eu cyfrifoldebau ychwanegol yn eu swyddi, penderfynwyd trefnu trwydded ar eu cyfer.

2.2 Trwy siarad â’r Aelodau sydd wedi cysylltu rydym wedi ceisio deall beth yn union oedd eu safbwynt, cynghori a cheisio arwain i ddatrysiad mewn ambell sefyllfa, a gaddo adrodd ymhellach i’r Pwyllgor hwn mewn sefyllfaoedd eraill.

2.3 Mae'r tabl isod yn ceisio crynhoi yr ymatebion a gasglwyd hyd yma.

| MATH O SYLW | NIFER | SYLWADAU PELLACH |
|---|---|---|
| Dewis Personol / hwylus o ran gwaith | 7 | • wedi arfer gyda defnyddio cyfrifiadur, laptop neu ffon,<br>• mwy hwylus wrth allu codi ebyst tra yn y gwaith<br>• 3G ar ffon, ond ddim ar y llechen felly wedi arfer gallu codi ebyst o wahanol leoliadau gyda 3G |
| Problem cyfrinair | 2 | • Cyfeiriwyd ymlaen at ddesg Gymorth TG am ddatrysiad sydyn |
| Angen Hyfforddiant pellach ar yr ipad | 3 | • Yn gyffredinol ddim yn deall yr ipad yn ddigon da<br>• Eraill, problem benodol gyda 'settings' gan fod Aelodau ddim ond yn gweld ebyst y pythefnos diwethaf. Datrysiad syml ac wedi eu cyfeirio ar sut i newid hynny. |
| Problemau iechyd | 1 | • Yn dilyn derbyn tystiolaeth feddygol, trefnu trwydded |

2.4 Roedd gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor wedi adrodd mai 24 Aelod oedd wedi gwneud defnydd o'r gwasanaeth ebyst o gartref cyn i'r addasiad ddigwydd (yn y cyfnod Rhagfyr 2014 – Awst 2015).

2.5 O'r 24, mae 11 eisoes wedi cysylltu (uchod), mae 8 ohonynt yn Aelodau Cabinet (mae darpariaeth amgen wedi ei wneud iddynt oherwydd gofynion eu swyddi yn creu adroddiadau ayyb), gan adael 5 oedd yn arfer gwneud defnydd o'r gwasanaeth ond nad ydynt wedi cysylltu. Yn ddiddorol, roedd dau ohonynt ar yr Hyfforddiant pellach.

2.6 Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am arweiniad pellach ar y mater.

**3. Gwneud y defnydd gorau o'r Llechen**

3.1 Fel yr adroddwyd yn y cyfarfod diwethaf, penderfynwyd cynnal peilot o hyfforddiant pellach ar yr ipad gydag arbennigwr allanol er mwyn uchafu defnydd yr Aelodau o'r ddarpariaeth sydd ar gael.

3.2 Wedi cryn drafferth yn trefnu dyddiad, cynhaliwyd rhan gyntaf y sesiwn ar 26ain o Fehefin, 2015 a'r ail sesiwn ar yr 8fed o Fedi, 2015. Dwy sesiwn ddwy awr yr un oeddent, gydag 5 aelod etholedig yn bresenol (6 yn y sesiwn cyntaf).

3.3 Bwriad y sesiwn oedd:

a) cyflwyno 'hints a tips' ar ddefnyddio'r ipad yn well a'i botensial (gan ddefnyddio'r camera, deall settings i allu newid i'r Gymraeg, gwneud y sgrin yn haws ei weld, to bach, newid 'display' ebyst, defnyddio'r map, lawrlwytho apps defnyddiol ar gyfer gweithio a nifer o bethau eraill) a

b) defnyddio app 'pages' ar gyfer prosesu geiriau ee gyda llythyrau syml a ffeilio y wybodaeth honno ayyb.

3.4 Cysylltwyd gyda'r Aelodau a fu ar y cwrs peilot i holi eu barn ynghylch yr Hyfforddiant. Roedd y sylwadau a dderbyniwyd am y cwrs a'i gynnwys yn gadarnhaol. Fodd bynnag, i grynhoi eu sylwadau

- Adroddodd yr holl Aelodau eu bod wedi cael budd o'r sesiwn ac wedi dysgu llawer iawn
- Nododd nifer eu bod wedi codi llawer o bethau yn y sesiwn 'hints and tips' ac wedi eu defnyddio. Fodd bynnag, roedd rhai elfennau, megis cyfeiriadau at drop box ayyb oedd yn rhy ddatblygol ar hyn o bryd.
- Y materion a godwyd wrth edrych ar y gosodiadau (settings) yn dda iawn
- Gellid teilwra yr Hyfforddiant a'i symleiddio i fod 'chydig bach mwy elfennol ar adegau, gan ganolbwyntio ar ffeilio yn yr inbox, ffeilio yn adobe, yn ogystal ag edrych ar elfennau mwy datblygol ee pages
- Byddai'n fuddiol cael copi caled o'r cyfarwyddiadau er mwyn gallu cyfeirio atynt wedyn
- Dylid gallu defnyddio ipad yn unig gyda'r wybodaeth a dderbyniwyd
- Rhaid i Aelodau fod yn fodlon 'chware' gyda'r ipad a thrafod ymysg ei gilydd er mwyn dysgu – llawer o wybodaeth rhwng pawb – trio yn hanfodol a thrafod ymysg ei gilydd i ddysgu
- Awgrymir sesiynau tebyg, ond mwy elfennol, tua 2 awr, ar gyfer hyd at 12 aelod

3.5 Yn ychwanegol i'r sylwadau uchod, mae'n bwysig i'r aelodau sylwi fod ffyrdd eraill o ddysgu eu hunain yn bodoli ar gyfer gwella eu defnydd o'r ipad. Mae torraeth o wybodaeth ar y we, gyda nifer wedi cyflwyno fideos ayyb ar youtube neu safleoedd tebyg, sy'n fodd hawdd a syml o ddysgu.

Pwysleisiodd yr hyfforddwr hefyd fod ymarfer cyson yn allweddol – chware a thrio pethau gwahanol a heb fod ofn. Nododd hefyd y dylid gofyn i eraill sut mae nhw yn gwneud pethau. Awgrymodd y dylai pob aelod ar y cwrs ddysgu o leiaf un peth i o leiaf un aelod arall, gan gychwyn cadwyn ddysgu syml.

**4. Sylwadau**

Gwahoddir barn y pwyllgor ar y ffordd o ddatblygu'r hyfforddiant hwn, allai gynnwys:-

- Cynnig cwrs ffurfiol arall i aelodau eraill
- Datblygu tim o aelodau all hyfforddi a chynnig arweiniad i'w cyd-aelodau
- Ystyried cynnig pages i'r rhai sydd wedi gweld yr app ac yn sicr y byddant yn gwneud defnydd ohono

**5. Moderngov**

5.1 Fe adroddwyd eisoes i'r pwyllgor ein bod yn y broses o fewnosod system newydd a fydd yn gofalu am yr elfennau democrataidd o Wefan y Cyngor a hefyd gwella ar y wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae elfen arall o'r system a fydd yn hwyluso mynediad at raglenni pwyllgor drwy'r llechen

5.2 Mae'r gwaith mewn osod yn mynd rhagddo gyda'r wefan yn newid yn raddol dros yr wythnosau nesaf. Ni fyddwn yn cyflwyno'r newid o ran y cyswllt a'r llechen tan ar ôl sesiwn hyfforddi y gwahoddwyd aelodau iddo ar 25 Tachwedd.

# RHAI MATERION LLE GALL CYFARWYDDIADAU FOD O FUDD

**CREU FFOLDERI YN INBOX**

- Yn Mailboxes (top ochor chwith), pwyso “Edit”
- Pwyso “New Mainbox” ar waelod y sgrin
- Teipio enw’r ffeil i mewn i’r box a gwasgu “save”
- Bydd y ffolder newydd yn yr inbox rwan

**SYMUD NEGES EBOST O’R INBOX I FFOLDER**

- Agor y neges ebost sydd i’w ffeilio, a phwyso y llun ‘ffolder’ bach ar dop y neges (drws nesaf i’r fflag!) – bydd y neges yn mynd ychydig yn llai r?an
- Dewis y ffolder yn yr inbox a phwyso hwnnw (dim llusgo!!)
- Neges yn hedfan i’r ffolder cywir

**GALLU GWELD GWERTH MWY NA PHYTHEFNOS O NEGESEUON EBOST**

- Mynd i ‘settings’ gan ddewis yr amlen “mail, contacts, calendars”
- Dewis dan ‘accounts’ – “Cyngor Gwynedd – mail, contacts, calendars, reminders, notes” a’i bwyso
- Dewis “mail days to sync” a’i bwyso
- Dewis yr hyd yr ydych yn dymuno ei weld ee 1 mis neu dim cyfyngiad

**AGOR DOGFEN PDF O NEGES EBOST YN ADOBE**

- Agor y ddogfen pdf
- Pwyso top y sgrin i gael box gyda saeth yn dod ohono
- Dewis yr icon ‘open in adobe
- Bydd wedi ei agor yn adobe rwan

**CREU FFOLDERI YN ADOBE**

- Agor adobe (bydd rhestr o bethau yma mewn rhes os ydych yna arfer agor yn adobe)
- Ar ben y sgrin pwyso’r gair ‘recent’ a’i newid i “local”
- Ar ochor uchaf, dde y sgrin nawr mae siâp ffolder (yr icon yn y canol), pwyso’r ffolder
- Enwi’r ffolder a pwysog “create ffolder”
- Mae o yna nawr dan y lythyren cyntaf y ffolder

**SYMUD DOGFENNAU I FFOLDERI YN ADOBE**

Pan yn agor Adobe, mae ‘na ddogfen “Getting Started” sy’n rhestru’r holl hints & tips defnyddiol gyda Adobe

- I greu ffolder newydd – Pwyso App Adobe ar y Desktop
- Ar dop ochr dde y sgrin gweler ffolder bach
- Pwyso y ffolder a gweler “Enter a name for the folder” yn dod i fyny
- Teipio enw eich ffolder yn y bocs a phwyso ‘Create Folder’
- Cofio bwyso y tic ar dop ochr dde yr I-pad wedyn
- I symud ffeil Adobe i’r ffolder, angen mynd i My Documents a bydd yr holl ffeiliau Adobe wedi’u rhestru yma.
- Clicio ar y ffeil berthnasol a clicio ar sgwâr gyda arwydd, symud y ffeil trwy glicio ar y ffolder sydd wedi ei chreu – pwyso tic mewn cylch ar y diwedd.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **29 Medi, 2015** |
| **PWNC** | **Is-grwp Amrywiaeth** |
| **PWRPAS** | **Diweddaru Aelodau y Pwyllgor ar waith yr is-grwp amrywiaeth a chyflwyno y rhaglen waith.** |
| **AWDUR (SWYDDOG)** | **Vera Jones**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd** |

**CEFNDIR**

1.1 Sefydlwyd yr Is-grŵp amrywiaeth ym mis Chwefror 2015 mewn ymateb i adroddiad cenedlaethol ac arweiniad yn Neddf Llywodraeth Leol (2012) i geisio cynyddu amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol.

1.2 Bwriad yr is-grŵp oedd edrych ar sefyllfa Gwynedd yn gyfredol gan gymharu proffil aelodau etholedig y Cyngor gyda phroffil y Sir i weld a oeddent yn gymharol. Bu'r grŵp yn edrych ar ystadegau am oedran, rhyw, cefndir ethnig ac anabledd.

1.3 Yn dilyn dadansoddi'r sefyllfa gyfredol, ymgymryd â rhywfaint o waith ymchwil i'r maes, lluniwyd rhaglen waith i geisio gwneud rhywfaint o wahaniaeth ar gyfer etholiadau 2017.

**Y GWAITH HYD YMA**

2.1 Mae'r is-grŵp wedi cwrdd ambell waith dros y misoedd diwethaf ac wedi dadansoddi'r data ystadegol sydd i law am y pedwar maes. Penderfynwyd fel a ganlyn:

<u>Cefndir ethnig:</u> anghysonder bychan rhwng proffil y Cyngor a'r Sir, ond ddim yn flaenoriaeth i gael sylw gan y grŵp. Angen ei ddwyn i mewn i gynlluniau lle bo'r cyfle, ond dim cynllun penodol.

<u>Anableddau:</u> Anodd dadansoddi gan fod data am y maes yn anodd i'w gael. Pencampwr Anableddau Gwynedd wedi nodi fod gwaith yn digwydd yn y maes yn gyfredol. Dim cynllun penodol gan y grŵp, ond fel uchod, angen ei ddwyn i mewn i gynlluniau lle bo'r cyfle, ond dim cynllun penodol.

<u>Rhyw:</u> Anghysondeb ym mhroffil y Cyngor a'r Sir – gweler graff yn atodiad B. Cynllun gwaith wedi ei lunio (gweler isod)

<u>Oedran:</u> Anghysondeb ym mhroffil y Cyngor a'r Sir - eto gweler graff Atodiad B. Gwaith yn mynd rhagddo yn hyrwyddo dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth o waith y Cyngor ac aelodau etholedig trwy'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Y grŵp yn awyddus i

beidio dyblygu, felly penderfynwyd bwydo unrhyw syniadau gan y grŵp trwy'r Aelod Cabinet i'r Bartneriaeth eu gweithredu lle'n bosib.

2.2 Mae gan y grwp rhywfaint o waith pellach i'w wneud i edrych ar wybodaeth ynghylch rhwystrau rhag sefyll i fod yn aelod etholedig, edrych ar waith ymchwil cenedlaethol sy'n cynnwys gwybodaeth gan gyn-aelodau ar draws Cymru i'r rhwystrau a'r cyfleon gwella, ynghyd ag ystyried y rhaglen waith cenedlaethol sydd newydd ei lansio. Wedi'r lawnsiad ar yr 17eg o Fedi, gall y grwp nawr edrych os oes cyfleon i'n galluogi i blethu ein rhaglen waith leol gyda'r gwaith cenedlaethol.

2.3 Bydd y grwp yn cwrdd eto ar y 12fed o Hydref i ystyried yr elfennau a nodwyd yn 2.2 uchod a llunio rhaglen waith drafft.

**CAMAU NESAF**

3.1 Yn dilyn i'r grwp gwrdd eto ym mis Hydref i lunio eu rhaglen waith, cyflwynir y rhaglen waith i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i'w ystyried a'i gefnogi. Os bydd y pwyllgor yn gefnogol i weithredu, bydd yn ofynnol sicrhau mewnbwn mwy o aelodau i weithredu'r rhaglen na'r 6 aelod sydd ar yr is-gr?p yn unig.

2.5 Yn ogystal, mae paratoi ar gyfer etholiadau nesaf y Cyngor, sydd ym Mai 2017, yn allweddol. Bydd angen i'r is-grŵp o'r Pwyllgor ystyried, maes o law, beth fydd y mecanwaith gorau ar gyfer cyflwyno unrhyw adolygiadau neu gynigion mewn da bryd i baratoi ar gyfer yr etholiadau hynny.


## ATODIAD A

Aelodaeth gyfredol y Gr?p

| Cynghorwyr | Rol |
|---|---|
| Tom Ellis | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Sian Gwenllian | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Sion Jones | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Peter Read | Pencampwr Anableddau |
| Gwen Griffiths | Pencampwr Amrywiaeth |
| Mair Rowlands | Pencampwr Plant a Phobl Ifanc |

## ATODIAD B

Mae'r graff isod yn darlunio gwybodaeth, fesul grwp oedran, am broffil poblogaeth Gwynedd a phroffil aelodau Gwynedd fesul rhyw.  Cyflwynir er gwybodaeth i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.




*Data yn gywir Chwefror 2015*

# Eitem 8

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **29ain Medi 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Lwfansau Aelodau** |
| **PWRPAS** | **Diweddaru'r Aelodau am benderfyniadau cyhoeddi tabl lwfansau Aelodau ar gyfer y cyfnod 2014/15** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Geraint Owen**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Fel yr adroddwyd i gyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar y 9fed o Fehefin 2015, mae'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gosod gofynion ar Awdurdodau Lleol i gyhoeddi costau Aelodau yn flynyddol. Mae hyn mewn dau ran:

a) Cyhoeddi gwybodaeth am y cyflogau y bwriedir eu talu yn y flwyddyn ariannol erbyn 31 Gorffennaf yn flynyddol
b) Cyhoeddi Gwybodaeth am y cyflogau a'r treuliau a dalwyd y flwyddyn flaenorol erbyn 30 Medi yn flynyddol.

1.2 Adroddwyd bryd hynny fod y wybodaeth ar gyfer y cyflogau y bwriedir eu talu am 2015/16 eisoes wedi eu cyhoeddi ar safle we'r Cyngor a'u bod yn cael eu hadolygu yn barhaus pan fo unrhyw newidiadau.

## 2. CYHOEDDI MANYLION LWFANSAU 2014/15

2.1 Bu i'r Pwyllgor drafod a chyd-weld y manylion ar gyfer cyhoddi'r wybodaeth am y lwfansau, gan benderfynu mai'r bwriad fyddai cyhoeddi gwybodaeth (fel a nodir isod) am lwfansau 2014/15 ar safle we'r Cyngor ac yn rhifyn mis Medi o Newyddion Gwynedd.

- darn ar ffurf cwestiwn ac ateb yn ceisio esbonio rhag-blaen faterion y dylid eu esbonio i'r cyhoedd.

- y tabl yn cynnwys y manylion am gostau yr Aelodau gan gynnwys colofn ychwanegol sy'n nodi os yw aelod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol neu beidio (ffurf √ neu × yn unig).

## 3. DIWEDDARIAD

3.1 Wrth i rifyn mis Medi o Newyddion Gwynedd gael ei ddwyn at ei gilydd, daeth i'r amlwg fod mwy o ddeunydd nag o ofod ar gael, ac y byddai'n rhaid blaenoriaethu'r hyn fyddai'n cael ei gyhoeddi. Blaenoriaethwyd y wybodaeth trwy ystyried beth oedd bwysicaf i'w gyfathrebu gyda phobl Gwynedd.

3.2 O ganlyniad, penderfynwyd ei bod yn angenrheidiol neilltuo y rhelyw o'r gofod ar gyfer Her Gwynedd, mater sydd yn bwysig iawn i'w esbonio yn gywir i drigolion Gwynedd.

3.3 Fodd bynnag, neilltuwyd gofod penodol yn Newyddion Gwynedd hefyd ar gyfer egluro fod y wybodaeth am dreuliau aelodau ar gael ar safle we y Cyngor (gan

hyrwyddo'r wybodaeth ar dudalen flaen y safle we), yn ogystal a chodi ymwybyddiaeth trwy twitter fel bod unrhyw un sydd â diddordeb yn gwybod ei fod yno.

3.4 Gellir cadarnhau hefyd fod y wybodaeth eisoes wedi ei gyhoeddi ar safle we'r Cyngor dan y cyfeiriad isod: www.gwynedd.gov.uk/treuliau

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd dderbyn y wybodaeth.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **29ain Medi 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Adroddiadau Blynyddol Aelodau (2014/15)** |
| **PWRPAS** | **Diweddaru'r Aelodau am yr adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2014/15 a chynnal trafodaeth buan am y cyfleon a'r rhwystrau at 2015/16** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Geraint Owen**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r pwyllgor yn ymwybodol o'r rheidrwydd sydd ar y Cyngor i wneud trefniadau i aelodau fedru cynhyrchu adroddiad blynyddol os ydynt yn dymuno. Pwrpas yr adroddiadau yw cefnogi cyfathrebu rhwng aelodau etholedig a'r cyhoedd, a hynny trwy gyflwyno gwybodaeth ffeithiol o weithgareddau.

1.2 Un ffactor pwysig i'w gadw mewn cof yw'r cyswllt rhwng yr adroddiadau blynyddol a'r papur gwyn a drafodwyd yn ddiweddar. Roedd y papur gwyn yn ymgynghori ar newid statws adroddiadau blynyddol i fod yn statudol. Bydd y Pwyllgor yn cofio iddo gytuno y dylai cyhoeddi adroddiadau o'r fath fod yn fandadol ar bob aelod; cytunodd y Cabinet â'r farn honno a dyna bellach farn gyhoeddus y Cyngor sydd wedi ei gyfleu i Lywodraeth Cymru.

1.3 I atgoffa'r Aelodau, mae'r canllawiau gwreiddiol a dderbyniwyd wedi eu cynnwys yn **Atodiad A**.

## 2. ADRODDIADAU 2014/15

2.1 Tros y blynyddoedd diwethaf mae'r niferoedd Aelodau etholedig sydd wedi dewis cyhoeddi adroddiadau blynyddol wedi cynyddu:

| | |
|---|---|
| 2012/13 | 8 adroddiad (peilot o'r drefn) |
| 2013/14 | 26 adroddiad (gan ddefnyddio templed y tro cyntaf) |
| 2014/15 | 39 adroddiad |

2.2 Bellach, mae'r adroddiadau wedi eu cyhoeddi ar safle we y Cyngor.

2.3 Wrth i Aelodau lunio eu hadroddiadau, derbynniwyd un neu ddau o sylwadau sydd wedi eu crynhoi isod.

- <u>Templed ar gyfer yr adroddiadau.</u>
  Roedd rhai Aelodau yn teimlo fod y templed yn rhy gaeth ac yn eu gorfodi i gynhyrchu adroddiad mewn modd llai lliwgar na'r hyn y byddent yn ei gynhyrchu yn naturiol ee rhywfaint o liw a lluniau. Nodwyd hefyd fod rhai yn anghyfforddus gyda'r

gwaith golygu sy'n digwydd o dro i dro ar adroddiadau, ond mae dyletswydd ar y Cyngor i fod yn eu golygu yn unol â'r canllawiau uchod.

- Templed yn cynnwys tabl nifer o bwyllgorau.
  Roedd rhai o'r Aelodau o'r farn nad oedd y templed cyfredol yn cynnig cyd-destun digonnol i'r darllenydd, gan mai nodi nifer y pwyllgorau a'r % yn unig y mae. Mae rhai wedi awgrymu y dylid cynnwys niferoedd yn bresenol, nifer yn absenol/ wedi ymddiheuro, cyfanswm, ac yna nodi'r canran.

- Data yn y tabl nifer y pwyllgorau.
  Cafwyd peth rhwystredigaeth fod y data a gyhoeddwyd yma yn anghywir. Bydd y Pwyllgor yn cofio iddynt benderfynu fod angen cynnwys gwybodaeth am gyfarfodydd paratoi a fforymau ardal yn y tabl, ond roedd hynny ar ol i'r templed gwreiddiol gael ei yrru allan. I'r dyfodol, rydym yn gobeithio y bydd Modern Gov yn gallu hwyluso gydag adrodd y wybodaeth yma.

- Amserlen.
  Aelodau yn adrodd ei bod yn anodd cofio yn ol beth sydd wedi digwydd tros y flwyddyn diwethaf a cheisio adrodd hynny ym Mehefin/ Gorffennaf. Un posibilrwydd fyddai i Aelodau ystyried cadw dyddiadur, a chyflwyno eu hadroddiadau erbyn Mai y flwyddyn ganlynol. Hefyd, pe cymeradwywyd y templed ynghynt, byddai modd ei ddosbarthu i Aelodau fel bod modd iddynt gofnodi materion wrth iddynt ddigwydd yn ystod y flwyddyn. Gellid ychwanegu y data presenoldeb wedyn.

## 3.0 ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried y sylwadau uchod a chynnig sylwadau agoriadol ar y drefn tra fo pethau'n ffres yn y cof, er mwyn hwyluso y drefn at 2015/16.

# ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU O AWDURDOD LLEOL

## Cyflwyniad

Mae Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("y Mesur") yn cynnwys darpariaethau a fwriadwyd i gryfhau democratiaeth leol. Mae Pennod 1 o'r Rhan honno'n ymwneud â'r gefnogaeth a roddir i aelodau o awdurdod lleol ac mae adran 5 o'r bennod honno'n cyfeirio at baratoi adroddiadau blynyddol ar gyfer yr aelodau hyn. Cyhoeddir y canllawiau statudol hyn o dan adran 5(4) o'r Mesur. Mae'r canllawiau yn ymwneud â threfniadau awdurdodau lleol i lunio adroddiadau blynyddol.

## Yr hyn sy'n ofynnol yn ôl y Mesur

Mae adran 5 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol (awdurdodau lleol) sicrhau bod pob un o'u haelodau etholedig yn gallu llunio adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau fel aelod o'r cyngor yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Mae hyn yn cynnwys galluogi unrhyw aelod o weithrediaeth y cyngor i adrodd ar ei weithgareddau fel aelod o'r weithrediaeth. Rhaid i'r cyngor dan sylw gyhoeddi unrhyw adroddiadau y bydd aelodau o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn eu llunio. Gall yr awdurdod lleol bennu amodau/terfynau ar yr hyn sy'n cael ei gynnwys mewn adroddiad.

Rhaid i'r awdurdod lleol roi cyhoeddusrwydd i'w drefniadau ar gyfer cyhoeddi adroddiadau blynyddol, ac wrth wneud y trefniadau hynny, rhaid iddo roi sylw i'r canllawiau hyn.

## Canllawiau

Dyletswyddau awdurdod lleol Rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau sy'n galluogi ei aelodau i lunio adroddiadau blynyddol. Mae hyn yn golygu bod rhaid iddo ddweud wrth ei aelodau sut i'w llunio ac erbyn pryd i'w llunio.

Mae'r Mesur, yn adran 8 a'r adrannau sy'n dilyn, yn nodi mai'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd sy'n cyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, fel y'u diffinnir yn adran 9. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth i roi cymorth a chyngor i aelodau i'w cynorthwyo i gyflawni eu swyddogaethau, ac mae trefnu proses yr adroddiadau blynyddol yn perthyn i'r categori hwn. Mae'r Mesur yn atal y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd rhag rhoi cymorth a chyngor i aelod yn ymwneud â chyflawni ei swyddogaethau gweithredol fel aelod o weithrediaeth. Er hynny, nid yw llunio adroddiad blynyddol yn swyddogaeth weithredol ynddi'i hun, hyd yn oed os yw'n cyfeirio at weithgareddau'r cynghorydd fel aelod o'r weithrediaeth. Rhagwelir y bydd yr adroddiadau blynyddol cyntaf yn cael eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Mehefin 2013 fan bellaf.

Cyhoeddi adroddiadau

Mater i'r awdurdod lleol yw penderfynu sut y bydd yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol. Disgwylir i'r awdurdod gynnwys dolen i adroddiadau blynyddol yr aelodau, o leiaf, a hynny ar y rhan honno o wefan yr awdurdod sy'n dangos manylion aelodau unigol. Nid oes disgwyl i'r awdurdod drefnu unrhyw gyhoeddusrwydd y tu hwnt i hyn, ac os yw'n penderfynu rhoi cyhoeddusrwydd pellach i'r adroddiadau, dylai ofalu ei fod yn gwneud yr un ddarpariaeth ar gyfer pob aelod. Felly, os bydd aelod yn gofyn i

awdurdod roi mwy o gyhoeddusrwydd i'w adroddiad, dylid gwrthod y cais hwnnw oni bai fod mwy o gyhoeddusrwydd yn cael ei roi i adroddiad pob aelod.

Dylai awdurdodau lleol hefyd sicrhau bod eu gwefan yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â chyflwyno adroddiadau blynyddol a sut y gall aelodau'r cyhoedd eu gweld.

Cynnwys yr adroddiadau

Prif bwrpas yr adroddiadau yw galluogi aelodau'r cyhoedd i ddod o hyd i wybodaeth am weithgarwch eu cynghorydd lleol. Gall awdurdodau lleol roi eu cyfyngiadau eu hunain ar gynnwys adroddiadau.

Dim ond gwybodaeth ffeithiol y dylai adroddiadau blynyddol ei chynnwys. Mae hynny'n awgrymu mai gwybodaeth am gyfarfodydd, digwyddiadau, cynadleddau ac ati a fynychwyd gan y cynghorydd y dylid ei chynnwys yn bennaf, ynghyd ag unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu. Er y gallai fod yn dderbyniol cynnwys gwybodaeth fod aelod "wedi gwneud sylwadau ar ran yr ymgyrch i achub yr ysbyty lleol yn y ffyrdd canlynol", ni fyddai'n dderbyniol dweud fod aelod "wedi llwyddo i achub yr ysbyty lleol yn sgil ei ymdrechion ar ran ei etholwyr."

Yn yr un modd, dylid osgoi cynnwys gwybodaeth mewn adroddiadau yn ymwneud â gweithgareddau a gwblhaodd yr aelod y tu hwnt i'w rôl fel cynghorydd. Felly, er y byddai'n dderbyniol cynnwys gwybodaeth am araith a roddodd aelod mewn cynhadledd yr oedd yn ei mynychu yn rhinwedd ei rôl yn y cyngor, ni fyddai'n dderbyniol cyfeirio at araith a roddodd mewn cynhadledd plaid wleidyddol, er enghraifft, ac yntau yno fel cynrychiolydd cangen leol ei blaid.

Dylid gofalu hefyd nad yw'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth y gellid ei dehongli fel beirniadaeth o aelod arall. Er enghraifft, ni fyddai'n dderbyniol i aelod gymharu ei bresenoldeb neu ei weithgareddau â rhai aelod arall neu aelodau eraill.

Awgrymir y dylid cynnwys yr eitemau safonol canlynol:

• Rôl a chyfrifoldebau – gan gynnwys manylion aelodaeth o bwyllgorau a chyrff allanol, cofnodion presenoldeb yn y rhain ac yn y cyngor llawn.
• Gweithgarwch lleol – manylion unrhyw gymorthfeydd a gynhaliwyd a sylwadau a wnaed ar ran etholwyr, a chanlyniadau'r rhain.
• Prosiectau mawr – manylion unrhyw fentrau neu brosiectau lleol, sirol neu ranbarthol y bu'r aelod yn rhan ohonynt.
• Dysgu a datblygu – manylion digwyddiadau hyfforddi a datblygu a fynychwyd neu a ddilynwyd, a chynadleddau a seminarau a fynychwyd

**Atodiad B – Templed Adroddiad cyfredol**

## ADRODDIAD BLYNYDDOL - 2014/15

**Cynghorydd:** **Grŵp:**

**Ward:**

**Bwriad yr adroddiad blynyddol:**
Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.

**Rol a chyfrifoldebau:**

**Gweithgareddau etholaethol:**

**Mentrau a gweithgareddau eraill:**

**Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau canlynol:**

| PWYLLGOR | PRESENNOL |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |

Canran Presenoldeb:

**Roeddwn yn absennol o'r Pwyllgorau a nodir oherwydd:**
**-**

**Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol canlynol:**
*e.e. Fforwm Craffu*
*Ymchwiliad Craffu*
*Gweithdy Cynllun Strategol*
*Gweithdy Arbedion*

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol canlynol:**
*e.e. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri*
*Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru*
*Ysgol Hirael (Llywodraethwyr Ysgol)*

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd yn y cyfarfodydd canlynol:**
*e.e. Cyd-Gyfarfod Swyddogion Cefnogi*
*Aelodau / Arweinyddion Cefnogi Aelodau*
*Ymddiriedolaeth Prawf Gogledd Cymru*

**Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu canlynol:**

| **Corfforaethol** |
|---|
| |
| |
| |
| |
| |

| **Ychwanegol** |
|---|
| |
| |
| |

Cyfanswm nifer o oriau:

# Eitem 10

Fersiwn 2 – 29.09.2015

**RHAGLEN WAITH PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

| Rhif | Eitem | Beth mae'r Pwyllgor i'w wneud? | SYLWADAU |
|---|---|---|---|
| 9fed Mehefin 2015 | | | |
| 1. | Adroddiadau blynyddol gan Aelodau – cyflwyno y drefn ar gyfer adroddiadau 2014/15 | Gofyn barn y Pwyllgor ar y trefniadau. | Wedi cyflwyno |
| 2. | Presenoldeb a chyflogau Aelodau – cyflwyno y trefniadau a'r gofynion ynghylch cyflogau. Ymgynghori ar y posibilrwydd o gyhoeddi presenoldeb aelodau. | Codi ymwybyddiaeth o'r trefniadau ac ymgynghori ar gyhoeddi presenoldeb aelodau. | Wedi cyflwyno |
| 3. | Cyfweliadau Datblygiad Personol – cyflwyno trefniadau eleni. | Gofyn barn y Pwyllgor ar y trefniadau. | Wedi cyflwyno |
| 4. | Gwefannau Cynghorau Tref a Chymuned – cyflwyno diweddariad o'r gefnogaeth sydd wedi ei gynnig i'r Cynghorau. | Derbyn gwybodaeth | Wedi cyflwyno |
| 5. | Rhaglen waith – cyflwyno drafft o'r rhaglen waith. | Trafod y rhaglen waith a'r amserlen ddrafft er mwyn ei gytuno. | Wedi cyflwyno |
| 29ain o Fedi 2015 | | | |
| 6. | Adroddiadau blynyddol gan Aelodau – adrodd nol ar gyflawniad adroddiadau 2014/15 | Derbyn gwybodaeth | Yn adrodd |
| 7. | Presenoldeb a chyflogau Aelodau – gwybodaeth am gyflogau a phresenoldeb aelodau ar gyfer 2014/15 cyn iddo fynd i Newyddion Gwynedd | Derbyn gwybodaeth | Yn adrodd |
| 8. | Adroddiad diweddaru gan yr Is-grwp amrywiaeth. Cyflwyno diweddariad o waith y grwp a'r rhaglen waith a luniwyd. | Trafodaeth ar y datblygiadau gan yr is-grwp a barn ar y cyfeiriad gan y Pwyllgor. | Yn adrodd |
| 9. | Siarter Aelodau. Adrodd diweddariad ar y siarter aelodau – cyflwyno os oes darnau penodol o waith i'w wneud. | Trafod y ffordd ymlaen os oes angen gwaith pellach i ennill y Siarter. | Symud i'r 8fed o Ragfyr |
| 10. | Materion TG – adrodd nol ar peilot | Ceisio barn y Pwyllgor | Yn adrodd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 'pages' a pheilot hyfforddiant pellach i-pad | a phenderfynu ar y ffordd ymlaen hefo TG | |
| 11. | Modern Gov – adrodd ar y datblygiad a rhaglen waith | Ceisio barn y Pwyllgor a phenderfynu ar y ffordd ymlaen. | Yn adrodd |
| 8fed Rhagfyr 2015 | | | |
| 12. | Gwe-ddarlledu. Adrodd ar y flwyddyn a fu a thrafod y ffordd ymlaen. | Ystyried y ffordd ymlaen ynghylch gwe-ddarlledu a'r gost ynghlwm. | |
| 13. | Mynychu o bell. Derbyn diweddariad ar y gofynion ac unrhyw ddatblygiadau yng Ngwynedd. | Trafod gyda'r Pwyllgor o ran eu dymuniadau ar y ffordd ymlaen yng Ngwynedd. | |
| 14. | Cyfweliadau Datblygiad Personol – adrodd nol ar gyfweliadau Medi i Rhagfyr a'r meysydd hyfforddiant adnabuwyd | Ystyried y rhaglen waith hyfforddiant, a sut i hyrwyddo mwy o bresenoldeb mewn hyfforddiant a chyfweliadau datblygiad personol | |
| 15. | Modern Gov – diweddariad ar eitem 11 | Ystyried y ffordd ymlaen. | |
| 16. | Cyflwyniad gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau | Adrodd am faes gwaith y pwyllgor. | |
| 29ain Fawrth 2015 | | | |
| 17. | Trefniadau etholiadau. Cyflwyno syniadau cychwynnol ynghylch y gwaith sydd angen digwydd yng Ngwynedd wrth baratoi am etholiadau 2017. | Ceisio barn y Pwyllgor am y gwaith rhag-baratoadol sydd i'w wneud, ac efallai ffurfio is-grwpiau i weithredu. | |
| 18. | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor i'r Cyngor llawn – cyflwyno drafft o adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor fydd i'w gyflwyno i gyfarfod y Cyngor Llawn. | Asesu llwyddiannau a gwaith sy'n parhau i fynd rhagddo gan y Pwyllgor. | |

Materion eraill fydd angen sylw ac angen adnabod dyddiad penodol ar eu cyfer:

- Technoleg Gwybodaeth – tebygol o fod yn eitem barhaus ar yr agenda
- Adroddiad y Comisiwn Ffiniau – y diweddaraf ar waith y comisiwn, ei oblygiadau i Wynedd ac i'r aelodau, a'r amserlen gweithredu
- Adroddiad 'canlyniad' y Papur Gwyn ynghylch Diwygio Llywodraeth Leol
- Adnabod gofynion ar gyfer y Rhaglen Hyfforddi a Datblygu Aelodau